

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU**  
**SIR DDINBYCH 2022**  
**Rhif 125 - Llefaru Unigol BI 5 a 6**



**LLOEREN**

Be weli di heddiw i fyny fry?  
Weli di wal fawr Tsieina  
Fel neidr droellog ddiddiwedd?  
Weli di fynyddoedd yr Himalaya  
Fel crychau ar groen hen wraig?  
Weli di'r plancton ar arfordir yr Ariannin  
Yn troelli'n las fel inc mewn dŵr?

Ysbïwr yn y nen,  
Pa beth sydd tu draw i'r gorwel?  
Ti a weli'r cwawl –  
Y camera symudol,  
Y seren wib.

Glywi di'r daran, weli di'r mellt?  
Wyt ti uwchlaw'r storm a'i helynt?

Brrr! Tic ... Crac!  
Mae'r signal yn gwanhau.

Fel fflach, gwelaf di  
Am eiliad fach,  
Amrantiad pry,  
Y lloeren yn llithro drwy'r ffurfafen.

Weli di Gymru  
Fel crafanc ar lan y môr?  
Tro'r lens arna i,  
Rydw i yma yng nghesail y castell !  
Yr Wyddfa yn gwarchod,  
Y coedwigoedd fel mwsog,  
A'r traethau yn euraidd ddisglair.

Pen pin ydw i  
Ar y ddaear hon.  
Dwyt ti'n ddim ond llychyn  
Mewn ogof ddu.

LILI RAY